DIFFINIADAU LEFELAU IAITH AT BWRPAS RECRIWTIO STAFF
Defnydd o'r Gymraeg

| | | Rhugl | Cymedrol | Ychydig |
|---|---|---|---|---|
| **Mewn Swyddfa** | Sgiliau llafar - deall | Rydych yn deall sgyrsiau proffesiynol ar sawl lefel. Yn deall rhai termau technegol perthnasol i'r maes. | Rydych yn deall y rhan helaeth o sgyrsiau dydd i ddydd. Rydych yn deall cyfarwyddiadau sylfaenol. | Rydych yn deall cyfarchion a rhannau o sgyrsiau syml |
| | Sgiliau llafar - siarad | Rydych yn medru cynnal sgyrsiau ar lefel broffesiynol gydag amrywiaeth o staff a chwsmeriaid. Rydych yn medru defnyddio rhai termau technegol perthnasol i'ch maes yn eich sgyrsiau | Rydych yn medru cynnal sgyrsiau dydd i ddydd gyda staff. Rydych yn medru ymateb i gwestiynau sylfaenol. Rydych yn medru cynnal sgwrs syml gyda chwsmeriaid dros y ffôn. | Rydych yn medru cyfarch ymwelwyr a staff. |
| | Sgiliau ysgrifennu | Gyda chymorth Cysgair a Gwirydd Iaith, rydych yn medru<br>• cyfansoddi llythyrau safonol yn gywir<br>• ysgrifennu e-byst<br>• cymryd cofnod o gyfarfod. | Rydych yn medru ysgrifennu e-byst byr a nodiadau anffurfiol. | Rydych yn medru llenwi ffurflenni syml |
| | Sgiliau darllen | Rydych yn medru darllen a deall llythyrau, adroddiadau a dogfennau perthnasol i'ch maes sydd yn cynnwys rhai termau technegol. | Rydych yn medru darllen llythyrau safonol ac e-byst sylfaenol | Rydych yn medru darllen arwyddion syml. |
| **Wrth ddysgu/asesu** | Sgiliau llafar - deall | Rydych yn deall cyflwyniadau a sgyrsiau sy'n cynnwys rhai termau technegol perthnasol i'ch maes. | Rydych yn deall y rhan helaeth o sgyrsiau dydd i ddydd yn y dosbarth ac ymysg eich cydweithwyr. Rydych yn medru dilyn cyfarfod tîm. | Rydych yn deall cyfarchion a rhannau o sgyrsiau syml |
| | Sgiliau llafar - siarad | Rydych yn medru cyflwyno gwersi gan wneud defnydd o'r Gymraeg. Rydych yn medru | Rydych yn medru cynnal sgyrsiau dydd i ddydd gyda staff. Rydych yn medru rhoi | Rydych yn medru cyfarch myfyrwyr |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | defnyddio rhai termau technegol perthnasol. Rydych yn medru cyfrannu'n broffesiynol i gyfarfodydd tîm. | cefnogaeth anffurfiol i fyfyrwyr. | a staff. |
| | Sgiliau ysgrifennu | Gyda chymorth Cysgair a Gwirydd Iaith, rydych yn medru<br>• paratoi rhai deunyddiau dysgu<br>• rhoi adborth ysgrifenedig i fyfyrwyr<br>• ysgrifennu e-byst<br>• cyfansoddi llythyrau sylfaenol | Rydych yn medru ysgrifennu e-byst byr a nodiadau anffurfiol. | Rydych yn medru llenwi ffurflenni syml |
| | Sgiliau darllen | Rydych yn medru darllen testunau, adroddiadau ac adnoddau sy'n cynnwys termau technegol perthnasol i'ch maes. | Rydych yn medru darllen testunau syml, llythyrau safonol ac e-byst sylfaenol | Rydych yn medru darllen arwyddion syml. |
| Fel Rheolwr | Sgiliau llafar - deall | Rydych yn medru deall cyflwyniadau a sgyrsiau proffesiynol gan gynnwys cyfraniadau at gyfarfodydd rheolaeth mewnol ac allanol | Rydych yn deall y rhan helaeth o sgyrsiau dydd i ddydd eich staff ac ymysg eich cydweithwyr. Rydych yn medru dilyn cyfarfod rheolaeth. | Rydych yn deall cyfarchion a rhannau o sgyrsiau syml |
| | Sgiliau llafar - siarad | Rydych yn medru gwneud cyfraniadau proffesiynol mewn cyfarfodydd rheolaeth mewnol ac allanol a gwneud cyflwyniadau ffurfiol ar bynciau perthnasol i'ch gwaith. | Rydych yn medru cynnal sgyrsiau dydd i ddydd gyda staff a chyd-reolwyr. Rydych yn medru gwneud cyfraniadau syml at gyfarfodydd rheolaeth | Rydych yn medru cyfarch myfyrwyr a staff. |
| | Sgiliau ysgrifennu | Gyda chymorth Cysgair a Gwirydd Iaith, rydych yn medru<br>• cyfansoddi adroddiadau perthnasol i'ch maes<br>• ysgrifennu llythyrau sylfaenol | Rydych yn medru ysgrifennu e-byst byr a nodiadau anffurfiol. | Rydych yn medru llenwi ffurflenni syml |
| | Sgiliau darllen | Rydych yn medru darllen dogfennau swyddogol technegol, ac adroddiadau perthnasol i'ch maes. | Rydych yn medru darllen cofnodion syml, llythyrau safonol ac e-byst sylfaenol | Rydych yn medru darllen arwyddion syml. |